Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu addysg a gofal mewn lleoliadau a reoleiddir, heblaw ysgolion, sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser

Medi 2019

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

## Cynnwys


**Diben yr arweiniad** 1

Sail gyfreithiol arolygu ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn 1

**Y Fframwaith Arolygu ar y Cyd** 3

**Egwyddorion arolygu** 4

Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr 4
Gweithdrefnau cwyno 5
Disgwyliadau lleoliadau 5

**Cynnal arolygiadau** 6

Disgrifiadau barnau 7
Cyfrannau 8
Materion iechyd, diogelwch a lles 8
Diogelu 8
Diffyg cydymffurfio 9
Argymhellion ar gyfer gwella 9

**Sut byddwn yn arfarnu themâu** 9

1 Lles 10
2 Dysgu 11
3 Gofal a datblygiad 13
4 Addysgu ac asesu 15
5 Yr amgylchedd 17
6 Arweinyddiaeth a rheolaeth 18

**Atodiad A: Beth rydym ni'n ei olygu o ran 'rhagorol'?** 21

**Atodiad B: Rhestr o ddogfennau i'w lanlwytho i'r ystafell arolygu rithwir** 23

**Atodiad C: Rhestr o ddogfennau y mae eu hangen yn ystod yr arolygiad** 24

**Atodiad CH: Cysylltiadau â'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir** 25

**Atodiad D: Diogelu** 26

## Diben yr arweiniad

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y bydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn yn arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau a reoleiddir, heblaw ysgolion, sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser. Bydd yr arolygiadau hyn ar y cyd yn gwerthuso'r gofal a ddarperir ar gyfer pob plentyn hyd at 12 oed ac addysg plant tair a phedair oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir.

Diben arolygu ar y cyd yw:

- cynnig arfarniad ansawdd i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill trwy adroddiadau cyhoeddus
- hybu gwelliant mewn gofal ac addysg
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru
- profi p'un a yw'r gwasanaeth yn addas i'w gofrestru o hyd
- rhoi sicrwydd digonol bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn cydymffurfio

### Sail gyfreithiol arolygu

#### AGC

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn annog gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar trwy reoleiddio, arolygu ac adolygu gwasanaethau, a thrwy ddarparu cyngor proffesiynol i Weinidogion a llunwyr polisïau. AGC yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru sy'n cyflawni'i swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae AGC yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal i bawb, o bobl ifanc i oedolion hŷn. Mae'n adolygu gwasanaethau fel y gall roi gwybod i'r cyhoedd p'un a yw gwasanaethau yn cyrraedd y safon, yn nodi meysydd i'w gwella ac yn helpu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr a'u gofalwyr.

Mae AGC yn rheoleiddio amrywiaeth eang o wasanaethau gofal cymdeithasol trwy wirio'u bod yn cydymffurfio â gofynion i ddarparu gwasanaethau diogel, o ansawdd da, fel y'u pennir gan y gyfraith.

Mae AGC yn rheoleiddio ac yn arolygu lleoliadau gofal a chwarae plant i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ac yn cynnig gofal o ansawdd da o dan y ddeddfwriaeth berthnasol, sydd ar gael ar y wefan, www.arolygiaethgofal.cymru

- Deddf Safonau Gofal 2000
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Ddydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Ddydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010
- Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Ddydd (Cymru) 2010
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir

Disgwylir i bob lleoliad gydymffurfio â'r rheoliadau a bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol perthnasol.

**Estyn**

Caiff arolygu lleoliadau sy'n gymwys am gyllid ar gyfer darparu addysg i blant cyn oed ysgol gorfodol ei lywodraethu gan Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros addysg ac hyfforddiant roi gwybod i Lywodraeth Cymru am:

- ansawdd a safonau'r addysg feithrin a ddarperir
- i ba raddau mae'r lleoliad yn bodloni anghenion amrywiaeth o blant yn y lleoliad
- ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad
- cyfraniad y lleoliad at les plant
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant

Mae'n rhaid i leoliadau sy'n gymwys am gyllid ar gyfer darparu addysg i blant cyn oed ysgol gorfodol:

- weithio tuag at ddeilliannau addysgol cytunedig, sef sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd tuag at ddeilliannau'r cyfnod sylfaen
- cael eu harolygu ar gyfnodau y gellir eu pennu

## Y Fframwaith Arolygu ar y Cyd

Mae'r fframwaith fel y'i cyflwynir isod yn cynnwys 6 thema, bob un wedi'i rhannu'n feysydd allweddol. Mae themâu 1 a 2 yn ystyried deilliannau plant, mae themâu 3 a 4 yn ystyried pa mor dda mae ymarferwyr yn cyfrannu tuag at y rhain ac mae themâu 5 a 6 yn ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth o ran sicrhau deilliannau da i'r plentyn.

Bydd arolygwyr yn llunio un farn ar gyfer pob thema, ar gyfer darpariaeth gyfan y lleoliad.

| | Thema | Maes allweddol |
|---|---|---|
| PLANT | 1 Lles | 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais? |
| | | 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi? |
| | | 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio? |
| | | 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu? |
| | | 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol? |
| | 2 Dysgu[1] | 2.1 Pa mor dda mae plant yn caffael medrau ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu? |
| YMARFERWYR | 3 Gofal a datblygiad | 3.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn diogelu plant, gan eu cadw'n ddiogel ac yn iach ar yr un pryd? |
| | | 3.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau? |
| | | 3.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad plant ac yn bodloni'u hanghenion unigol? |
| | 4 Addysgu ac asesu[1] | 4.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion plant? |
| | | 4.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn addysgu ac yn asesu plant? |
| ARWEINWYR | 5 Yr amgylchedd | 5.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch y safle? |
| | | 5.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd y safle? |
| | | 5.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar? |
| | 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth | 6.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth? |
| | | 6.2 Pa mor effeithiol yw'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella? |
| | | 6.3 Pa mor effeithiol yw'r rheolaeth ar staff ac adnoddau? |
| | | 6.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau? |

[1] Mae hyn yn berthnasol i blant 3 a 4 oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir

## Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu o ansawdd uchel ac yn ymatebol i anghenion yr holl blant
- yn sicrhau bod barnau yn gadarn, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys lleoliadau'n llawn yn y broses arolygu
- yn defnyddio adolygiad blynyddol y lleoliad yn fan cychwyn ar gyfer yr arolygiad ac i nodi materion allweddol i ymchwilio iddynt er mwyn llunio barnau ar ddilysrwydd eu canfyddiadau
- yn cadw gofynion am ddogfennau a gwaith paratoi gan y lleoliad i leiafswm
- yn cywain barn defnyddwyr gwasanaeth
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn yr holl waith arolygu
- yn glir gyda lleoliadau ynglŷn â diffygion pwysig a darparu argymhellion adeiladol i gefnogi gwelliant

### Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Mae'n rhaid i bob arolygydd gyrraedd y safonau yng Nghod Ymddygiad y Gwasanaeth Sifil. Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwneud eu gwaith gyda didwylledd, cwrteisi a sensitifrwydd
- yn arfarnu gwaith y lleoliad yn wrthrychol
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf plant
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

Mae'n bwysig bod arolygwyr yn barnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu cyfraniadau at ddeilliannau ac nid ar sail ffafrio unrhyw ddulliau penodol, er enghraifft dilyn cynllun neu fenter benodol. Yr hyn sy'n allweddol i'r farn yw p'un a yw'r dulliau a'r sefydliad yn addas at eu diben, sef cefnogi pob plentyn i gyflawni deilliannau cadarnhaol a lefelau uchel o les.

Bydd gan arolygwyr o bob arolygiaeth eu bathodynnau adnabod neu gardiau gwarant eu hunain a gellir gofyn am y rhain at ddibenion gwirio.

Dylai arolygwyr hysbysu Estyn neu AGC am unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig cyn gynted ag y cânt wybod y byddant yn arolygu'r lleoliad.

### Gweithdrefnau cwyno

Mae'r weithdrefn gwyno ar gyfer pob arolygiaeth ar gael ar ei phriod wefan. Dylid cyflwyno cwynion am ymddygiad arolygwyr unigol i'r arolygiaeth briodol. Os bydd y

gŵyn yn ymwneud â'r broses arolygu, bydd y gŵyn yn dilyn gweithdrefn gwyno'r arolygiaeth sy'n arwain yr arolygiad.

Estyn
https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/adborth-chwynion

AGC
https://arolygiaethgofal.cymru/cysylltwch-ni/codi-pryder

## Disgwyliadau lleoliadau

Er mwyn i arolygu fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a lleoliadau yn sefydlu ac yn cynnal amgylchedd gweithio proffesiynol, yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill a'r llall. Mae disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad y Gwasanaeth Sifil, ond rydym yn disgwyl i leoliadau hefyd:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- cymhwyso'u codau ymddygiad eu hunain yn ystod eu cysylltiad ag arolygwyr
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn ffordd agored a gonest
- galluogi arolygwyr i arfarnu'r ddarpariaeth yn wrthrychol yn unol â'r fframwaith arolygu ar y cyd
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy ar y lleoliad
- cynnal deialog pwrpasol gyda'r arolygydd neu'r tîm arolygu
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff a rhanddeiliaid eraill heb bresenoldeb arweinydd
- tynnu unrhyw bryderon am yr arolygiad i sylw arolygwyr mewn modd amserol a phriodol, trwy'r person â gofal neu'r person cofrestredig/unigolyn cyfrifol
- gweithio gydag arolygwyr i leihau tarfu a straen trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr tra byddant ar eu safle

Adeg yr hysbysiad o'r arolygiad, dylai lleoliadau adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb lleoliadau yw amlygu unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig cyn dechrau eu harolygiad.

## Cynnal arolygiadau

### Cynllunio’r arolygiad

Bydd yr arolygiad yn seiliedig ar un set o wybodaeth a ddarperir gan y lleoliad, gan gynnwys dadansoddiad o gryfderau a meysydd i’w datblygu. Cyfeiriwch at Atodiad B am restr o ddogfennau i’w lanlwytho i’r YAR cyn yr arolygiad.

### Cysylltu â’r lleoliad cyn arolygiad

Bydd y lleoliad yn cael deng niwrnod gwaith o rybudd o’r arolygiad. Ar yr adeg hon, bydd y cydlynydd arolygu (CydAr) yn cysylltu â’r lleoliad i wneud trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y CydAr:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad.
- yn trafod y wybodaeth benodol y bydd ei hangen cyn yr arolygiad ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei derbyn ar ffurf electronig, drwy’r Ystafell Arolygu Rithwir, o fewn 5 niwrnod gwaith
- yn gofyn p’un a oes unrhyw broblemau neu risgiau y dylai wybod amdanynt, a gofyn am friff cyffredinol ar iechyd a diogelwch ar ddechrau’r arolygiad
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael
- yn trefnu bod y person cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol neu aelod o’r pwyllgor rheoli gwirfoddol yn cyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi holiaduron rhieni a staff
- yn trefnu unrhyw faterion domestig, fel ystafell i’r arolygwyr a pharcio
- yn gwneud y trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ar ganfyddiadau’r arolygiad
- yn gwneud y trefniadau ar gyfer llenwi holiaduron ôl-arolygiad
- yn hysbysu’r lleoliad y bydd elfennau allweddol y trefniadau’n cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig

Bydd y tîm arolygu yn cynnwys arolygydd arweiniol ac arolygydd tîm. Os caiff arolygiad ei arwain gan arolygydd Estyn, bydd yr aelod tîm yn arolygydd AGC. Os bydd yr arolygydd arweiniol yn arolygydd AGC, bydd yr aelod tîm yn arolygydd Estyn.

Bydd yr arolygydd arweiniol yn cysylltu â’r lleoliad dros y ffôn cyn yr arolygiad i gyflwyno'i hun a rhoi rhagor o wybodaeth am yr arolygiad.

Bydd yr arolygydd arweiniol yn gofyn i’r lleoliad roi gwybod i rieni am yr arolygiad a rhoi gwybod iddynt am y gweithdrefnau ar gyfer cael eu barn.

Bydd lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn cael eu harolygu trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Yr ymweliadau arolygu

Fel arfer, bydd yr ymweliadau arolygu ar y cyd yn digwydd dros ddau hanner diwrnod yn olynol. Lle bydd lleoliadau yn cynnig gofal i blant hyd at 12 oed, bydd arolygydd ychwanegol o AGC yn arolygu’r ddarpariaeth y tu allan i’r ysgol fel rhan o’r

arolygiad hwn ar y cyd. Yn ystod yr arolygiad, bydd arolygwyr yn casglu tystiolaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Bydd y rhain yn cynnwys ymgymryd ag arsylwadau o arfer, defnyddio SOFI2, trafodaethau â phlant, rhieni, ymarferwyr ac arweinwyr, a chraffu ar ddogfennau (gweler Atodiad C). Bydd yr arolygydd arweiniol yn rhoi gwybod i arweinwyr am gynnydd yr arolygiad.

Ar ddiwedd yr arolygiad, rhoddir adborth ffurfiol. Mae’r cyfarfod adborth yn rhoi’r cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed darganfyddiadau a barnau’r tîm a myfyrio arnynt. Dylai’r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a’r meysydd i’w gwella, a’r ffactorau sy’n cyfrannu atynt. Dylai’r arolygydd arweiniol esbonio i’r lleoliad y gellir codi materion a’u trafod, cywiro materion ffeithiol ac egluro barnau, ond nid yw’r barnau eu hunain yn destun dadl.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried p’un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y lleoliad. Dylai’r arolygydd arweiniol roi gwybod i’r lleoliad os bydd angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm hefyd yn ystyried a oes unrhyw arfer effeithiol yn y lleoliad sy’n deilwng o gael ei hystyried gan leoliadau eraill. Os oes, bydd yr arolygydd arweiniol yn gofyn i’r lleoliad baratoi astudiaeth (neu astudiaethau) achos i’w lledaenu ar wefannau AGC ac Estyn.

Mae’r holl farnau yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a’u dilysu. Maent yn gyfrinachol i’r lleoliad. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i’r grŵp hwn, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes i AGC ac Estyn gyhoeddi’r adroddiad ar eu gwefannau.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Yr arolygydd arweiniol sy’n gyfrifol am gynhyrchu adroddiad arolygu terfynol sy’n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i’r lleoliad.

Bydd adroddiadau yn cael eu cyhoeddi’n ddwyieithog, lle mae lleoliad wedi gofyn am hyn, yn unol â Pholisïau Iaith Gymraeg AGC ac Estyn.

Bydd adroddiad yn cael ei lunio o fewn 45 niwrnod gwaith o ddechrau’r arolygiad.

Bydd yr arolygiaethau yn rhoi drafft o’r adroddiad i’r lleoliad er mwyn helpu i wirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Bydd gan yr ysgol bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol.

## Disgrifiadau barnau

Bydd arolygwyr yn rhoi un farn ar gyfer pob thema, ar gyfer darpariaeth gyfan y lleoliad.

Bwriedir i’r disgrifiadau canlynol fod yn ganllaw i helpu arolygwyr lunio barnau trwy ystyried cydbwysedd ac arwyddocâd cymharol cryfderau a meysydd i’w gwella.

**Rhagorol –** perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig

**Da** – llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol

**Digonol** –cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau

**Gwael** – gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol

Er mwyn dod i farn ar themâu arolygu 3, 4, 5 a 6, bydd arolygwyr ystyried effaith ar les a dysgu plant.

## Cyfrannau

Mewn adroddiadau, rydym yn defnyddio’r termau canlynol i adlewyrchu cyfrannau. Mae’r rhain yn berthnasoedd mynegol yn unig.

| | |
|---|---|
| bron bob un | = gydag ychydig o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = 90% neu fwy |
| llawer | = 70% neu fwy |
| mwyafrif | = dros 60% |
| hanner | = 50% |
| tua hanner | = yn agos at 50% |
| lleiafrif | = o dan 40% |
| ychydig | = o dan 20% |
| ychydig iawn | = llai na 10% |

## Materion iechyd, diogelwch a lles

Os amlygir materion iechyd, diogelwch a lles difrifol yn ystod arolygiad, bydd arolygydd AGC yn dilyn trywydd hyn fel rhan o weithdrefnau diffyg cydymffurfio AGC.

## Diogelu

Mae dyletswyddau statudol ar bob lleoliad i weithredu mewn modd sy’n cyfrif am yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant (gweler yr arweiniad yn Atodiad E).  Mae angen i’r trefniadau sydd ar waith mewn lleoliadau sicrhau:

- bod mesurau rhesymol yn cael eu cymryd i leihau risgiau niwed i les a diogelwch plant
- bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â phryderon am les a diogelwch plant

Yn ystod yr arolygiad, gallai unrhyw aelod o’r tîm arolygu amlygu pryderon ynghylch lles neu ddiogelwch plant/plentyn.  Lle y bo’n briodol, bydd yr arolygydd arweiniol yn hysbysu’r lleoliad.  Bydd arolygydd AGC yn cymryd camau priodol yn unol â pholisi AGC fel y’i cyhoeddir ar ei gwefan.  Bydd arolygydd Estyn hefyd yn hysbysu swyddog diogelu Estyn am y mater, yn unol â pholisi diogelu Estyn.

## Egwyddorion AGC ar gyfer sicrhau gwelliant a gorfodi, gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheoliadau

Mae AGC yn defnyddio pwerau gwella a gorfodi i hybu ei hamcan craidd o wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau, er lles pobl Cymru. Mae'r egwyddorion canlynol yn llywio'r modd y mae'n gwneud penderfyniadau gorfodi:

- **Cyfrifoldeb**: Cyfrifoldeb darparwyr gwasanaethau yw sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion rheoleiddio. Oni fydd angen gweithredu ar frys, bydd AGC yn rhoi cyfleoedd i'r darparwyr unioni unrhyw fethiannau a gwella eu gwasanaethau.

- **Cymesuredd**: Mae AGC yn gweithredu yn gymesur â'r amgylchiadau, y canlyniadau a'r risg a achosir i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac adnoddau'r darparwr a'i allu i ymateb. Bydd darparwr sy'n methu'n barhaus i gydymffurfio â'r rheoliadau yn wynebu camau gorfodi dwysach, gan gynnwys y posibilrwydd o ddiddymu ei gofrestriad.

- **Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd**: Mae AGC yn agored ac yn dryloyw am ei hymagwedd gorfodi a sut y mae'n defnyddio pwerau gorfodi. Mae unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd yn eglur, yn gyson, yn amserol, yn deg ac yn gymesur.

- **Rhannu gwybodaeth**: Mae AGC yn cydweithio gyda chomisiynwyr, rheoleiddwyr, asiantaethau a chyrff proffesiynol perthnasol eraill i wneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth sydd ar gael am wasanaeth. Wrth brosesu a rhannu gwybodaeth, bydd yn cydymffurfio â holl ofynion perthnasol y ddeddfwriaeth.

- **Cymryd camau cydlynol**: Mae AGC yn cydweithio gyda phartneriaid i sicrhau y bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerir yn gydgysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes pryderon ynghylch diogelu unigolion neu faterion iechyd a diogelwch a oruchwylir gan reoleiddwyr eraill.

- **Cynnal hawliau unigolion**: Mae AGC wedi ymrwymo i hybu a chynnal hawliau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal a chymorth. Pan fo'r gofal yn annerbyniol, bydd yn cymryd camau gorfodi.

Caiff diffyg cydymffurfio ei gofnodi yn yr adroddiad arolygu. Lle y bo adroddiad diffyg cydymffurfio ar wahân wedi'i gyhoeddi, fe'i cyhoeddir fel rhan o'r adroddiad a dilynir proses AGC yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfio.

## Argymhellion ar gyfer gwella

Bydd yr adroddiad arolygu yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella yn nhrefn yr arweiniad hwn. Dylai'r argymhellion roi arwydd clir a phenodol i'r lleoliad o'r meysydd i'w gwella y bydd angen iddo fynd i'r afael â nhw.

## Sut y byddwn yn arfarnu'r themâu

Dylai arolygwyr bwyso a mesur y dystiolaeth a phennu barnau ar sail yr hyn sy'n cyd-fynd orau â disgrifiadau'r barnau. Bydd barnau perthnasol yn ystyried oedran a cham datblygu plentyn.

Bydd arolygiadau'n ymdrin â phob thema a maes allweddol y fframwaith arolygu. Fodd bynnag, ni ddylai arolygwyr ond adrodd ar ddysgu (thema 2) pan fydd chwech neu fwy o blant tair neu'n bedair oed yn y lleoliad, ar adeg yr arolygiad, ac nad ydynt yn derbyn addysg wedi'i hariannu mewn lleoliadau a gynhelir.

Mae angen gweithredu fel hyn na ellir adnabod plant unigol. Dylid cynnwys y datganiad terfynol ar ddechrau thema 2, pan na all arolygwyr adrodd ar ddysgu.

'Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.'

### 1 Lles

#### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Dylai arolygwyr arfarnu p'un a yw plant:

- yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau
- yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod pob ymdrech i gyfathrebu yn cael ei werthfawrogi[2]
- yn siarad a mynegi'u hunain
- yn mynegi eu barn ac yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando ar eu syniadau
- yn cyfrannu at syniadau ar gyfer themâu a phynciau

#### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Dylai arolygwyr arfarnu p'un a yw plant:

- wedi ymgartrefu ac yn ymdopi â bod i ffwrdd o'u rhieni
- yn llunio ymlyniadau emosiynol cadarnhaol
- yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, yn gyfforddus ac wedi ymlacio didaro
- yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu hawliau'n cael eu parchu
- wedi datblygu hoffter tuag at ymarferwyr
- yn gwneud ffrindiau
- yn gwybod gyda phwy i siarad os byddant yn anhapus neu'n poeni am rywbeth
- yn hyderus y bydd y pethau maen nhw'n eu hoffi, eu casáu a'u pryderon yn cael eu hystyried

[2] Gan gynnwys cyfathrebu llafar, dieiriau a chyfathrebu yn iaith aelwyd y plentyn

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Dylai arolygwyr arfarnu p'un a yw plant:

- yn wydn ac yn gallu ymdopi
- yn dechrau datblygu ymdeimlad o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, ac yn dechrau rheoli'u hymddygiad
- yn dechrau deall eu teimladau ac yn sensitif i emosiynau pobl eraill
- yn cydweithredu, yn aros eu tro ac yn rhannu
- yn parchu eraill ac yn gofalu am gyfarpar ac adnoddau
- yn hunanddisgybledig ac yn gosod a chydymffurfio â rheolau ar gyfer ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol, yn unol â'u hoedran a cham datblygu

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Dylai arolygwyr arfarnu p'un a yw plant:

- wedi ymgysylltu, yn dangos diddordeb ac yn dangos cyffro
- yn dyfalbarhau am gyfnod priodol i gwblhau gweithgaredd a dangos gwydnwch
- yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau a thasgau, ac yn canolbwyntio arnynt
- yn ennill ymdeimlad o gyflawniad o'r hyn a wnânt
- yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig
- yn mwynhau gweithgareddau wedi'u trefnu, chwarae rhydd a gweithgareddau hamdden

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu ac yn dod yn annibynnol?

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae plant:

- yn datblygu'n emosiynol, yn gorfforol, yn gymdeithasol, yn greadigol, yn ieithyddol ac yn ddeallusol
- yn dod yn hyderus ac yn annibynnol
- yn llawn cymhelliant ac yn ymhel â diddordebau personol

## 2. Dysgu

### 2.1 Pa mor dda mae plant yn caffael medrau ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu?

Bydd arolygwyr yn ystyried p'un a yw plant:

- yn cyflawni safonau da, o ystyried eu hoedran, eu cam datblygu, anghenion dysgu ychwanegol a'u 'mannau cychwyn'
- yn gwneud cynnydd realistig yn yr hyn y gallant ei wneud, yn eu gwybodaeth, ac yn eu dealltwriaeth a'u medrau
- yn cyflawni'n dda mewn gweithgareddau sy'n cryfhau ac yn datblygu'u dysgu

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r plant yn datblygu medrau cyfathrebu sy'n eu hannog i:

- fynegi eu teimladau a'u hemosiynau drwy ystumiau, meim, iaith arwyddion a thrwy gelf a cherddoriaeth
- cael pobl eraill i'w deall
- gwrando ar gyfarwyddiadau a'u dilyn
- defnyddio iaith briodol mewn chwarae digymell a chwarae strwythuredig
- dangos diddordeb mewn llyfrau a mwynhau eu cynnwys, gydag oedolyn neu heb oedolyn, gan eu trin fel darllenwr
- dilyn storïau sy'n cael eu darllen iddynt ac ymateb
- arbrofi â gwneud marciau a phrofiadau ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, a'u mwynhau
- chwarae ag iaith, fel ffordd o ddatblygu eu diddordeb mewn iaith
- deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r plant yn datblygu medrau rhifedd sy'n eu hannog i:

- ddewis a defnyddio syniadau, cyfarpar a deunyddiau mathemategol priodol i ddatrys problemau ymarferol
- defnyddio iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol
- adnabod patrymau, dilyniannau a pherthnasoedd trwy chwarae a phrofiadau ymarferol
- cymryd rhan mewn amrywiaeth o ganeuon a rhigymau gan gynnwys, er enghraifft, diwrnodau'r wythnos a misoedd y flwyddyn, rhifau prifol a rhifau trefnol

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r plant yn datblygu medrau datrys problemau sy'n eu hannog i:

- wneud penderfyniadau am ba weithgareddau maent yn eu dewis a beth mae ei angen arnynt i wneud tasgau penodol
- defnyddio deunyddiau ac adnoddau gwahanol
- dangos dyfalbarhad pan fyddant yn wynebu heriau
- cydweithio i ddatrys problemau

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r plant yn datblygu medrau corfforol sy'n eu hannog i:

- fod yn weithgar yn gorfforol, yn unol â'u gallu
- datblygu medrau cydsymud
- defnyddio cyfarpar chwarae mawr gyda rheolaeth gynyddol
- dechrau defnyddio teclynnau bychain gyda rheolaeth sy'n gwella

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r plant yn datblygu medrau creadigol sy'n eu hannog i:

- fynegi'u hunain trwy amrywiaeth o gyfryngau, fel celf, cerddoriaeth, dawns a symudiad
- gwneud dewisiadau ynghylch sut i gyflwyno'u syniadau

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r plant yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol sy'n eu hannog i:

- rannu ac aros eu tro
- chwarae'n gydweithredol gydag un neu fwy o blant, heb gymorth oedolion
- ymuno'n weithgar â gweithgareddau grŵp
- rheoli eu hemosiynau gyda rhywfaint o gymorth
- dechrau ystyried anghenion pobl eraill

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r plant yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sy'n eu hannog i:

- ymgyfarwyddo â defnyddio technoleg yn eu chwarae a'u gweithgareddau bob dydd, a'i defnyddio'n hyderus
- datblygu'u medrau cyfathrebu

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r plant yn datblygu medrau Cymraeg (mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg) sy'n eu hannog i:

- adeiladu'u medrau Cymraeg yn systematig wrth iddynt symud drwy'r lleoliad
- gwneud cynnydd wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn oddefol ac yn weithgar mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft yn ystod cofrestru, sesiynau grŵp a chwarae digymell
- cyfathrebu ag oedolion yn Gymraeg
- ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau yn Gymraeg
- dangos mwynhad a phleser wrth ganu caneuon Cymraeg a dysgu cerddi Cymraeg

Dylai arolygwyr ystyried y cynnydd a wna plant o gymharu â'u mannau cychwyn.

Yn achos lleoliadau cyfrwng Cymraeg, cyfeiriwch at yr arweiniad ar gyfer medrau cyfathrebu uchod.

## 3 Gofal a datblygiad

### 3.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn diogelu plant, gan eu cadw'n ddiogel ac yn iach ar yr un pryd?

Bydd arolygwyr yn llunio barn am ansawdd ac effeithiolrwydd polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant a hybu'u lles a pha mor dda mae ymarferwyr yn eu gweithredu.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- polisi amddiffyn plant, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer adnabod arwyddion radicaleiddio ac eithafiaeth
- y trefniadau sydd gan arweinwyr i recriwtio staff yn ddiogel
- iechyd a diogelwch, gan gynnwys hylendid bwyd a darpariaeth ar gyfer rheoli heintiau
- diogelwch rhag tân
- y trefniadau ar gyfer diogelwch a diogeledd safle
- gweini meddyginiaeth yn ddiogel

- cefnogi plant â chyflyrau meddygol
- gweini cymorth cyntaf
- diogelwch ar deithiau ac ymweliadau
- diogelwch ar y rhyngrwyd
- bwlio
- rheoli ymddygiad plant, gan gynnwys ymyrryd ac atal yn gorfforol
- polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys bwyta ac yfed yn iach a gweithgareddau corfforol

**Amddiffyn plant**

Wrth ystyried effeithiolrwydd gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer amddiffyn plant, dylai arolygwyr werthuso addasrwydd polisi'r lleoliad ar amddiffyn plant a ph'un a yw ymarferwyr yn deall ac yn adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth. Hefyd, dylent werthuso p'un a yw ymarferwyr yn ymwybodol o bolisi amddiffyn plant y lleoliad ac yn ei weithredu'n gywir, ac yn gallu adnabod risgiau i blant.

Bydd arolygwyr yn adrodd p'un a yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nad ydynt yn destun pryder.

### 3.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau?

Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw:

- staff yn gweithio yn unol â pholisi'r lleoliad ar reoli ymddygiad
- staff yn gweithredu'n gyson, gan ystyried plant unigol, fel nad oes dryswch ym meddwl y plentyn o ran yr hyn sy'n dderbyniol neu beidio
- ymarferwyr yn gosod ffiniau realistig ac yn defnyddio cosbau priodol
- ymarferwyr yn annog plant hŷn i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain
- staff yn modelu ymddygiad da

### 3.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad plant ac yn bodloni'u hanghenion unigol?

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae ymarferwyr:

- yn gwybod, yn deall ac yn bodloni anghenion, galluoedd a dewisiadau unigol plant
- yn cynnig amgylchedd/awyrgylch anogol a gofalgar
- yn cynnig gofal ymatebol
- yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth
- yn hybu datblygiad plant, er enghraifft sut maent yn darparu gweithgareddau datblygiadol priodol ar gyfer anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a deallusol
- yn trin pob plentyn gydag urddas a pharch
- yn sicrhau bod preifatrwydd plant yn cael ei barchu
- yn olrhain cynnydd plant ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae (nid yw'n berthnasol i blant dros 8 oed)
- yn sicrhau bod plant hŷn yn gallu pennu a rheoli cynnwys eu chwarae trwy fynd ar drywydd eu syniadau a'u diddordebau eu hunain

**Anghenion dysgu ychwanegol**

Dylai arolygwyr ystyried:

- i ba raddau y mae'r lleoliad yn cynnig pob agwedd ar yr holl feysydd dysgu yn llawn i blant ag anghenion dysgu ychwanegol
- pa mor effeithiol mae'r lleoliad yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant
- p'un a yw ymarferwyr yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd ac yn ffurfiol
- p'un a yw systemau grwpio a systemau cymorth yn bodloni'r amrywiaeth o anghenion heb effeithio'n niweidiol ar ehangder, cydbwysedd a pharhad dysgu plant
- pa mor dda mae'r lleoliad yn integreiddio, yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag ADY, fel eu bod yn gallu gwneud cynnydd a chyflawni safonau yn unol â'u cam datblygu
- ansawdd y cymorth i blant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol
- ansawdd y cymorth i blant ag anawsterau iaith a lleferydd
- y defnydd o wasanaethau arbenigol, fel gwasanaethau iechyd, seicolegol a chymdeithasol, a'u cyfraniad

## 4 Addysgu ac asesu

### 4.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion plant?

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae:

- cynllunio profiadau dysgu yn llwyddo i ennyn diddordeb a bodloni anghenion pob plentyn
- ymarferwyr yn cydweithio i gynllunio gweithgareddau hyblyg, ymatebol ac arloesol
- profiadau dysgu yn annog datblygiad cyffredinol plant a'u cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r cyfnod sylfaen
- profiadau dysgu yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol, wrth i blant symud ymlaen yn y lleoliad

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae profiadau dysgu y mae ymarferwyr yn eu cynnig yn annog plant i:

- feithrin perthnasoedd ag eraill a dangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol
- cymryd risgiau, arbrofi â phrofiadau newydd, datblygu'n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd a dod yn ddysgwyr annibynnol
- datblygu'u medrau corfforol, meddwl a chreadigol
- datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd maent yn byw ynddo
- deall y dylid trin popeth byw gyda gofal a pharch
- gweithredu'n gynaliadwy

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r lleoliad:

- yn datblygu medrau plant, yn enwedig eu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a TGCh
- yn gwneud yn siwr bod y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn wedi'i chydlynu'n briodol i sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da

### Y Gymraeg

### Darpariaeth Gymraeg (lleoliadau cyfrwng Saesneg)

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r lleoliad yn darparu i blant ddefnyddio a phrofi'r Gymraeg cymaint â phosibl yn eu dysgu, gan ystyried mannau cychwyn y plant. Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae'r lleoliad yn datblygu medrau Cymraeg plant a staff yn gynyddol.

### Y dimensiwn Cymreig

Dylai arolygwyr farnu i ba raddau mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol

Wrth arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau mae'r plant yn cael cyfleoedd i:

- ddatblygu ymdeimlad o chwilfrydedd am eu bywyd a'u credoau eu hunain, a bywydau a chredoau pobl eraill
- datblygu ymdeimlad o ryfeddod am y byd y maent yn byw ynddo

Wrth arfarnu datblygiad moesol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r lleoliad:

- yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch
- yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu plant i wahaniaethu rhwng da a drwg

Wrth arfarnu datblygiad cymdeithasol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r lleoliad yn annog plant o wahanol grwpiau i:

- gymryd cyfrifoldeb, dangos menter a datblygu dealltwriaeth o gydweithredu a rhannu ag eraill
- deall rheolau ymddygiad syml, fel rhannu teganau
- dysgu sut i uniaethu ag eraill a chymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain
- cyfrannu at wneud penderfyniadau

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda mae ansawdd perthnasoedd yn y lleoliad yn helpu i feithrin agweddau plant tuag at ymddygiad cymdeithasol da a hunanddisgyblaeth.

Wrth arfarnu datblygiad diwylliannol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r lleoliad yn annog plant i ymhél â'r celfyddydau, chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau diwylliannol eraill.

### 4.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn addysgu ac yn asesu plant?

Dylai'r ffocws fod ar effaith addysgu ar ddysgu, ac nid ar unrhyw un dull penodol.

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae ymarferwyr:

- yn meddu ar wybodaeth gyfredol am ddatblygiad plant ac effaith anghenion dysgu ychwanegol ar ddatblygiad

- yn deall gofynion y cyfnod sylfaen
- yn meddu ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn, gan gynnwys plant ag ADY a phlant mwy abl a thalentog
- yn cynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sydd wedi'u hysgogi gan blant a gweithgareddau wedi'u cyfeirio/wedi'u harwain gan oedolion, sy'n bodloni anghenion unigol plant yn hyblyg
- yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu drwy chwarae ac ymglymiad gweithgar, a phrofiadau uniongyrchol
- yn fodelau iaith da
- yn cynnig amgylchedd ysgogol, heriol a chyffrous, dan do ac yn yr awyr agored, sy'n annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad plant
- yn defnyddio holi i herio plant
- yn defnyddio ymarferwyr ychwanegol yn effeithiol
- yn ymyrryd yn briodol mewn gweithgareddau/chwarae plant
- yn rhoi pwys ar broses greadigol y plant ac nid ar y cynnyrch terfynol

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau mae'r holl ymarferwyr yn cymryd rhan mewn cynllunio ac yn cael gwybod beth mae disgwyl iddynt ei wneud.

**Asesu**

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae gweithdrefnau'r lleoliad yn hylaw er mwyn galluogi ymarferwyr i:

- asesu plant yn rheolaidd ac yn ofalus, a chofnodi arsylwadau ac asesiadau sy'n mesur cynnydd plant yn effeithiol
- defnyddio deilliannau asesu i gynllunio gweithgareddau at y dyfodol sy'n bodloni anghenion a diddordebau plant
- rhoi gwybod i rieni am gynnydd eu plant a beth allant ei wneud i helpu'u plant i wella

## 5 Yr amgylchedd

### 5.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch y safle?

Dylai arolygwyr arfarnu:

- p'un a yw plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a glân
- p'un a yw risgiau diangen i blant wedi'u hamlygu a'u dileu cyhyd â phosibl
- p'un a oes cydbwysedd rhwng yr angen i hybu diogelwch plant a'u hamddiffyn rhag niwed, a'r angen i gynorthwyo plant i gymryd risgiau

- SYLWCH: Bydd methiannau yn yr uchod yn llywio'r farn ar gyfer diogelu

### 5.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd y safle?

Dylai arolygwyr arfarnu:

- p'un a yw'r safle ac unrhyw ardaloedd chwarae tu allan yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn cynnig amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu

- p'un a oes digon o le a chyfleusterau i fodloni anghenion plant
- p'un a yw'r amgylcheddau dan do ac awyr agored yn cael eu defnyddio'n dda i hybu datblygiad medrau
- p'un a yw'r gosodiad a'r cynllun yn hybu annibyniaeth plant ac wedi'u hystyried o safbwynt y plentyn
- p'un a yw'r safle'n cael ei gynnal a chadw'n dda
- p'un a oes cyfleusterau addas i'r staff
- p'un a oes trefniadau priodol i gynnal sgyrsiau cyfrinachol a chadw cofnodion yn ddiogel
- p'un a yw mannau chwarae/hamdden i blant hŷn yn cynnig heriau, risgiau a chyfleoedd addas i arbrofi

### 5.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Dylai arolygwyr arfarnu:

- p'un a oes dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau ar gael i'r plant, sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion
- p'un a yw adnoddau yn briodol i oedran a chyfnod, yn cael eu cynnal a chadw'n dda, ac yn cydymffurfio â safonau diogelwch perthnasol
- p'un a yw adnoddau'n lân a bod y ffordd y cânt eu cynnal a chadw yn cydymffurfio ag egwyddorion rheoli haint
- p'un a yw teganau a deunyddiau chwarae yn hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys diwylliant a threftadaeth Cymru, a chyfle cyfartal
- p'un a yw'r ardaloedd dan do ac awyr agored yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu priodol
- p'un a yw'r defnydd ar amrywiaeth eang o ddeunyddiau cynaliadwy yn cael ei hybu

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth

### 6.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn gosod disgwyliadau uchel
- yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y lleoliad yn dda ac yn archwilio sut i'w gyflawni mewn cydweithrediad ag eraill
- yn rhoi gwybodaeth i'r person cofrestredig/unigolyn cyfrifol a, lle y bo'n berthnasol, y pwyllgor rheoli neu'r perchennog am gynnydd y lleoliad
- yn hybu arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch
- yn mynd rhagddynt i gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau
- yn creu ethos cadarnhaol lle y mae plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi
- yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau
- yn rhannu eu gwerthoedd a'u disgwyliadau am ddysgu, ymddygiad a pherthnasoedd
- yn gosod nodau ac amcanion clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant, y mae'r holl ymarferwyr yn eu deall a'u gweithredu, ac sy'n cael eu darparu i rieni

- yn cynllunio'n strategol i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddatblygu'u medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol
- yn cyflwyno "Cynnig Gweithredol" y Gymraeg[3]
- yn monitro ac arfarnu deilliannau i blant
- yn cydymffurfio â rheoliadau AGC ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol
- yn meddu ar ddatganiad clir o ddiben sy'n cynnig darlun cywir o'r lleoliad

### 6.2 Pa mor effeithiol yw'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella?

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r lleoliad:

- yn nodi'n gywir gryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w gwella
- wedi'u gwreiddio mewn cynllunio strategol a gweithredol ac yn manteisio ar weithdrefnau sicrhau ansawdd yn rheolaidd
- yn manteisio ar dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd gofal, addysgu a dysgu
- yn cynnwys yr holl staff mewn asesu deilliannau ac asesu eu perfformiad eu hunain, fel myfyrio ar yr hyn a wnânt yn ddefnyddiol
- yn cyfrif am farn staff, rhieni/gofalwyr, plant a rhanddeiliaid eraill
- yn manteisio ar adolygiadau, cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol, lle y bo'n briodol
- yn arwain at gynllunio datblygu sy'n cael ei fonitro yn erbyn targedau a meini prawf llwyddiant clir
- yn blaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno'u gwella
- yn gweithredu strategaethau cadarn sy'n debygol o ysgogi'r gwelliannau a ddymunir
- yn ystyried p'un a aethpwyd i'r afael â phryderon/cwynion yn briodol
- yn neilltuo cyllid priodol sy'n arwain at welliant mewn ansawdd gofal, chwarae a dysgu
- yn arwain at wneud gwelliannau a chael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant

### 6.3 Pa mor effeithiol yw'r rheolaeth ar ymarferwyr, staff ac adnoddau?

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol
- yn diffinio rolau a chyfrifoldebau
- yn meddu ar system effeithiol o oruchwylio a gwerthuso ymarferwyr, sy'n arwain at dargedau cytunedig
- yn sicrhau bod digon o ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad priodol a pherthnasol o weithio gyda phlant ifanc
- yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni'u rolau o ran nodau strategol, cynlluniau a chyfrifoldebau'r lleoliad
- yn rheoli'u hamser eu hunain ac yn blaenoriaethu gweithgareddau yn ymatebol
- yn cyfleu disgwyliadau uchel i'r bobl y maent yn eu rheoli
- yn cytuno ar dargedau heriol a realistig i'w hunain ac i eraill, ac yn eu cyflawni
- yn trafod ac yn cydweithredu'n dda â staff ac asiantaethau allanol
- yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff a'u bod yn cael eu defnyddio'n briodol
- yn datblygu cynlluniau staffio wrth gefn

[3] Mae'r 'Cynnig Gweithredol' yn golygu bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

- yn sicrhau deilliannau priodol i blant yn gyffredinol
- yn cydbwyso effeithiolrwydd y ddarpariaeth â chostau yn llwyddiannus, gan gynnwys costau staffio
- yn gwneud defnydd da o gyllid, gan gynnwys Grant Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar

Dylai arolygwyr ystyried y trefniadau i gynorthwyo’r holl staff i gymryd rhan weithgar mewn cynyddu’u gwybodaeth broffesiynol, eu dealltwriaeth a’u medrau, gan gynnwys cymryd rhan mewn profiadau dysgu proffesiynol i’r lleoliad cyfan.

### 6.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae’r lleoliad yn deall ei rôl a’i gyfrifoldebau yn glir o ran sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng partneriaid.

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae’r lleoliad:

- yn gweithio gyda rhieni i nodi anghenion a hoffterau unigol eu plentyn cyn ac yn ystod ei gyfnod yn y lleoliad
- yn gweithio gyda rhieni i wella lles a dysgu’u plentyn o ddydd i ddydd
- yn rhoi gwybod i rieni am ofal, datblygiad a chynnydd eu plentyn
- yn cynnwys rhieni mewn gwneud penderfyniadau am gynnydd a lles eu plentyn
- yn rhoi gwybodaeth i rieni am bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda mae’r lleoliad yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wella dysgu a lles plant.

## Atodiad A: Beth rydym ni'n ei olygu o ran 'rhagorol'?

Os bydd darparwr yn derbyn barn 'rhagorol' ar gyfer unrhyw un o'r meysydd arolygu, yna bydd y tîm arolygu wedi nodi enghreifftiau o arfer gadarn iawn sydd o ansawdd uchel yn barhaus. Wrth drafod y posibilrwydd hwn, bydd angen tystiolaeth gref ar arolygwyr fod perfformiad ac arfer yn gadarn iawn ac yn barhaus.

Mae'r pwyntiau isod yn rhoi arweiniad wrth ystyried barn 'ragorol'.

Rhaid i arfer gadarn iawn fod yn hynod effeithiol a dylid gweld yr effeithiolrwydd o ran ei effaith glir ar les, cynnydd a chyflawniad plant. Mae arfer a pherfformiad parhaus yn golygu y bydd tystiolaeth glir o effaith yr arfer ar les, cynnydd a chyflawniad plant dros gyfnod. Fodd bynnag, mae'n cyfeirio hefyd at ba mor dda mae'r arfer wedi'i sefydlu ar draws holl feysydd gwaith y darparwr. Bydd angen i arolygwyr ystyried yn ofalus pa mor gyson yw'r ymarferwyr a'r arweinwyr o ran yr arfer sy'n cefnogi deilliannau cadarnhaol a lefelau uchel o les i blant.

Mae perfformiad cryf iawn ac arfer o ansawdd uchel yn golygu bod ansawdd y deilliannau a'r ddarpariaeth yn flaenllaw yn y sector.

Pan fydd perfformiad ac arfer mewn maes arolygu yn cynnwys elfennau sydd angen mân welliant o hyd, bydd angen i arolygwyr ystyried p'un a yw'r diffygion yn golygu bod y farn yn gwyro'n fwy tuag at 'da' na 'rhagorol'. Wrth lunio'u barnau, bydd angen i arolygwyr bwyso a mesur arwyddocâd unrhyw ddiffygion a'u heffaith ar gynnydd, cyflawniad a lles plant. Yn gyffredinol, mae arfer gadarn iawn a pharhaus yn arwydd o ddeilliannau a darpariaeth o ansawdd uchel, ochr yn ochr â nodweddion ansawdd da. Pan fydd nodweddion o ansawdd digonol yn unig hefyd, mae barn 'rhagorol' yn gyffredinol yn annhebygol.

Wrth ystyried barn 'rhagorol', dylai arolygwyr fod yn glir yn y lle cyntaf am gryfderau'r perfformiad a'r arfer cyn symud i ystyried p'un a yw wedi bod yn arfer barhaus hefyd.

Os nad yw arfer a pherfformiad cadarn yn barhaus, ni ddylai sicrhau barn 'rhagorol'. Er enghraifft, dylai arolygwyr adrodd yn gadarnhaol ar fentrau diweddar sy'n cael effaith gadarn iawn ar gynnydd a lles plant, ond mae'n bosibl na fydd y rhain ynddynt eu hunain yn sicrhau barn ragorol oherwydd mae'n annhebygol y bydd digon o dystiolaeth o'u cynaliadwyedd a'u heffaith dros gyfnod gan fod hi'n ddyddiau cynnar o ran eu gweithredu.

Mae perfformiad ac arfer gadarn iawn, yn gynaledig, yn golygu hefyd y dylai'r darparwr allu defnyddio arfer o'r fath i gynnig arweinyddiaeth i'r sector, fel y gall yr arfer fod yn ddylanwadol fel enghraifft o waith o ansawdd uchel. Bydd angen i arolygwyr ystyried p'un a yw arfer o'r fath yn deilwng o'i lledaenu at y diben hwn. Nid oes angen i'r darparwr fod eisoes wedi rhannu'i arfer er mwyn cael barn ragorol.

Gallai perfformiad ac arfer gadarn iawn, yn gynaledig, gynnwys gwaith arloesol a blaengar sy'n gwthio'r ffiniau, ond nid o reidrwydd. Pan fydd arfer gadarn iawn wedi'i chynnal dros gyfnod, mae'n bosibl nad yw'n arloesol nac yn unigryw. Fodd bynnag, rhaid iddi fod yn hynod effeithiol.

Nid oes gan Estyn nac AGC gwota gosodedig o ran nifer na chyfran y barnau 'rhagorol' y gall arolygwyr eu cyflwyno. Mae croeso i arolygwyr lunio unrhyw farn, ar yr amod bod y farn yn gwbl seiliedig ar y meini prawf yn y llawlyfrau arweiniad arolygu a'r dystiolaeth ger eu bron. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd yn cynnwys dilysu a safoni pob barn yn drylwyr. Mae hyn yn cynnwys gwirio'r dystiolaeth sy'n ategu'r barnau ynghyd â chroesgyfeirio â barnau tebyg a wnaed mewn arolygiadau eraill.

## Atodiad B: Rhestr o'r dogfennau i'w lanlwytho i'r YAR cyn yr arolygiad

Bydd y Cydlynydd Arolygu yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan y lleoliad trwy'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn gynted ag y bo modd yn dilyn yr hysbysiad ffurfiol o'r arolygiad:

- Arfarniad o gryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w gwella mewn Word neu PDF*
- Cynllun gweithredu
- Y drefn ddyddiol
- Datganiad o Ddiben
- Rhestr staffio
- Polisi Amddiffyn a/neu Ddiogelu Plant
- Polisi Rheoli Ymddygiad

***Arfarnu'ch lleoliad**

Nid ydym yn ffafrio unrhyw ddull ar gyfer arfarnu'ch lleoliad; er enghraifft, gallech ddewis defnyddio'ch adroddiad hunanarfarnu eich hun neu eich adroddiad ar ansawdd gofal, ar yr amod ei fod yn arfarnu pob thema.

Pan fyddwch yn arfarnu ansawdd eich darpariaeth, dylech ystyried y tri chwestiwn isod o dan bob un o'r themâu canlynol.

- Lles (pob plentyn)
- Dysgu (plant 3 a 4 oed nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall)
- Gofal a datblygiad (pob plentyn)
- Addysgu ac asesu (plant 3 a 4 oed nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall)
- Yr amgylchedd (y lleoliad cyfan)
- Arweinyddiaeth a rheolaeth (y lleoliad cyfan)

1 Beth rydych chi'n ei wneud yn dda a sut mae hyn o fudd i blant? Sut rydych chi'n gwybod?
2 Beth rydych chi wedi'i wella'n ddiweddar a pha wahaniaeth mae hyn wedi'i wneud i blant? Rhowch enghreifftiau.
3 Beth mae angen i chi ei wella? Sut rydych chi'n gwybod? Sut rydych chi'n bwriadu gwneud hyn?

## Atodiad C: Rhestr o ddogfennau y mae eu hangen yn ystod yr arolygiad, yn ôl pob tebyg

Bydd arolygwyr yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i lunio'u barnau. Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- Cofnodion unigol plant
- Datganiad o ddiben
- Rhestr staff (ymarferwyr), gan gynnwys manylion cymwysterau a gwybodaeth am oruchwyliaeth, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus staff, a gweithdrefnau a chofnodion recriwtio staff.
- Cofnodion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n crynhoi gwiriadau'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth, a'u trefniadau gwirio a chyflogi.
- Mewn gwasanaethau gwarchod plant, cofnodion gwiriadau ar gyfer pobl dros 16 oed sy'n byw neu'n gweithio ar y safle, neu'r rhai sydd â chysylltiad rheolaidd â phlant sy'n derbyn gofal;
- Asesiadau risg
- Dogfennau polisi a gweithdrefn
- Samplau o gynllunio gweithgarwch
- Enghreifftiau o waith plant a thystiolaeth o gynnydd unigol
- Gwybodaeth asesu, yn enwedig asesiadau a wnaed wrth i blant ddechrau yn y lleoliad neu ymadael â'r lleoliad
- Cofrestri presenoldeb plant, staff a gwirfoddolwyr
- Cofnodion damweiniau/digwyddiadau/meddyginiaethau
- Rhestr o unrhyw atgyfeiriadau diogelu a wnaed i'r awdurdod lleol
- Cofnodion unrhyw gwynion
- Gwybodaeth am sut caiff rhieni/gofalwyr wybod am gynnydd eu plant
- Unrhyw wybodaeth sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth yn defnyddio cysylltiadau â'r gymuned yn dda
- Gwybodaeth am bartneriaethau
- Y cyfrifon archwiliedig diweddaraf
- Gwybodaeth am y defnydd o Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, os yw'n berthnasol
- Unrhyw adroddiadau arfarniadau allanol o'r gwasanaeth e.e. diogelwch rhag tân, iechyd yr amgylchedd
- Unrhyw wybodaeth arall y mae'r lleoliad yn dymuno iddi gael ei hystyried

## Atodiad CH: Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**https://arolygiaethgofal.cymru/rheoliadau-safonau-gofynnol-cenedlaethol-gofal-dydd-chwarae**

## Atodiad D: Diogelu

### Arweiniad diogelu

Mae'r Fframwaith Arolygu ar y Cyd yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu a hybu lles plant. Mae elfennau o ddiogelu i'w gweld ar draws pob un o 6 thema'r fframwaith.

### Diffiniad o ddiogelu

Mae gan bob lleoliad ddyletswydd statudol i arfer ei swyddogaethau gyda'r nod o ddiogelu a hybu lles eu plant.

Mae diogelu a hybu lles plant yn ymwneud â'r canlynol:

- amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- atal amhariad i'w hiechyd neu eu datblygiad
- sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol, fel y gallant gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant rannu amcan i helpu i gadw plant yn ddiogel trwy gyfrannu at:

- greu amgylchedd diogel, a'i gynnal
- nodi pryderon am les plant a chymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain, lle y bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant

Mae cyflawni'r amcan hwn yn galw am systemau sy'n anelu at:

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant
- hybu arfer ddiogel a herio arfer anniogel, wael
- adnabod adegau pan fydd sail i bryderu am les plentyn, a chychwyn neu gymryd camau priodol i'w gadw'n ddiogel
- cyfrannu at weithio effeithiol mewn partneriaeth ymhlith pawb sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc

Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hybu lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgarwch a wneir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae diogelu'n cwmpasu mwy na'r cyfraniad a wneir at amddiffyn plant yn gysylltiedig â phlant unigol. Hefyd, mae'n cwmpasu materion fel:

- recriwtio, goruchwylio, hyfforddi a rheoli staff yn ddiogel
- sut mae staff yn rheoli ymddygiad plant
- iechyd a diogelwch plant
- bwlio
- trefniadau i fodloni anghenion plant â chyflyrau meddygol
- materion diogelu eraill sy'n gysylltiedig yn benodol â'r ardal neu'r boblogaeth leol, fel camddefnyddio cyffuriau a sylweddau

Y person cofrestredig sy’n gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu plant. Mae’n debygol y bydd nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gwmpasu’r elfennau angenrheidiol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- polisi amddiffyn plant
- polisi rheoli ymddygiad, gan gynnwys bwlio ac atal
- gweithdrefn disgyblu staff
- gweithdrefn ymadael rhag tân
- gweithdrefn damweiniau
- gweithdrefn plentyn coll
- gweithdrefn plentyn heb ei gasglu
- polisi a gweithdrefn meddyginiaeth
- polisi gwahardd plentyn sâl
- polisi cyfrinachedd
- gweithdrefnau ar gyfer ymddygiad diogel ar deithiau
- ymrwymiad y lleoliad i e-ddiogelwch i sicrhau bod plant yn cadw’u hunain yn ddiogel
- mae pob gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei chadw’n ddiogel yn unol â gofynion diogelu data.

Rhaid i leoliadau sicrhau bod y safle yn ddiogel a bod asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau diogelwch plant.

**Amddiffyn Plant**

Rhaid i’r person cofrestredig ysgrifennu polisi amddiffyn plant sy’n diogelu plant rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac sy’n amlinellu’r weithdrefn i’w dilyn os bydd honiad o gamdriniaeth neu esgeulustod. Rhaid rhannu’r polisi hwn gyda rhieni cyn i’r plentyn fynychu’r lleoliad.

Wrth arfarnu’r polisi amddiffyn plant, dylai arolygwyr ystyried:

- a yw’r polisi yn dangos bod y lleoliad yn ymwybodol o’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol; Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan; Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004; a Chylchlythyr 05/2008 Llywodraeth Cymru: Diogelu Plant mewn Addysg

- a yw’r polisi yn dangos sut i atgyfeirio unrhyw honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod i’r awdurdod lleol perthnasol yn ddiymdroi

- a yw’r polisi yn darparu canllawiau am sut i gadw cofnodion ysgrifenedig o unrhyw honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod, a’r camau a gymerwyd i ymateb, yn ddiogel

- p’un a ystyrir y mesurau unigol y gallai fod eu hangen i amddiffyn plant perthnasol yn dilyn honiad o gamdriniaeth neu esgeulustod

- a yw’r polisi yn gofyn i unrhyw unigolyn sy’n gweithio gyda phlant roi gwybod am bryderon am les neu ddiogelwch plentyn

- a yw'r polisi'n cynnwys manylion cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol y dylid atgyfeirio iddo
- a yw'r polisi'n cynnwys gwybodaeth am y weithdrefn i'w dilyn os gwneir honiad yn erbyn aelod staff neu wirfoddolwr (dylai hyn gynnwys y person â gofal)

**Hyfforddiant staff**

- Rhaid i'r person cofrestredig benodi aelod staff dynodedig, sydd wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn plant, i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu gweithredu a bod cydymffurfiaeth effeithiol â nhw
- Gall unrhyw unigolion sy'n gweithio gyda phlant roi'r polisi amddiffyn plant ar waith ac maent yn gwybod am faterion diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys cam-drin corfforol, esgeulustod, cam-drin emosiynol a cham-drin rhywiol, ac yn gallu rhoi gweithdrefnau ar waith
- Mae staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i adrodd am bryderon yn unol â gweithdrefnau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn ddi-oed
- Mae amddiffyn plant yn rhan o hyfforddiant sefydlu staff newydd o fewn wythnos gyntaf eu cyflogaeth
- Mae trafodaethau ar faterion diogelu yn rhan o oruchwyliaeth unigol staff yn rheolaidd

**Recriwtio staff**

Ni chaiff y person cofrestredig gyflogi unigolyn na chaniatáu i wirfoddolwr ofalu am blant oni bai bod yr unigolyn hwnnw yn addas, felly rhaid i bob gwiriad recriwtio diogel angenrheidiol fod ar waith cyn bod unigolyn yn gofalu am blant.